

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Polisi Diogelu Data

1. Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, y “Gymdeithas” o hyn ymlaen, yw’r Rheolydd Data dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, sy’n golygu ei bod yn penderfynu i ba ddibenion y delir gwybodaeth bersonol, neu i beth y byddir yn ei defnyddio. Mae’n gyfrifol hefyd am hysbysu’r Comisiynydd Gwybodaeth o’r data y mae’n ei ddal neu’n debygol o’i ddal, ac o’r dibenion cyffredinol y byddir yn ddefnyddio’r data hwn ar ei gyfer.
2. Mae angen i Reolydd Data’r Gymdeithas, y “RhD” o hyn ymlaen, gasglu a defnyddio gwybodaeth benodedig am unigolion.
3. Mae’r rhain yn gallu cynnwys cleientiaid, cwsmeriaid, cyflenwyr, cysylltiadau busnes, gweithwyr a phobl eraill y mae gan y practis berthynas â nhw neu y gall fod angen cysylltu â nhw.
4. Mae’r polisi hwn yn disgrifio sut y mae’n rhaid casglu’r data personol hwn, ei drin, ei storio i gwrdd â safonau diogelu data’r practis – ac i gydymffurfio â’r gyfraith. Mae’n amlinellu hefyd sut y bydd ceisiadau i gael gweld y data yn cael eu trin.
5. Mae’r polisi diogelu data hwn yn bodoli i sicrhau bod y Gymdeithas yn:
 - 5.1. Cydymffurfio â chyfraith Diogelu Data ac yn dilyn arferion da



- 5.2. Diogelu hawliau staff, cleientiaid, cwsmeriaid a phartneriaid
- 5.3. Agored ynghylch sut y mae'n storio ac yn prosesu data unigolyn
- 5.4. Diogelu'i hun rhag peryglon tor-diogelwch data.
6. Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn disgrifio sut y mae'n rhaid i sefydliadau gasglu, trin, a storio gwybodaeth bersonol.
7. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol ni waeth pa un a yw data'n cael ei storio'n electronig, ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill.
8. I gydymffurfio â'r gyfraith, rhaid i wybodaeth bersonol gael ei chasglu a'i defnyddio'n deg, cael ei storio'n ddiogel a pheidio â chael ei datgelu'n anghyfreithlon.
9. Yn sail i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol mae chwe egwyddor bwysig. Maent yn dweud bod rhaid i ddata personol:
 - 9.1. gael ei brosesu'n **gyfreithlon, yn deg, ac yn dryloyw**
 - 9.2. gael ei gasglu at **ddibenion penodol, eglur, a chyfreithlon**
 - 9.3. fod yn ddigonol, perthnasol, ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sydd ei angen i'w brosesu
 - 9.4. fod yn gywir a, ble mae angen, yn cael ei gadw'n gyfredol.
 - 9.5. gael ei gadw yn y fath ffurf fel y gellir ond adnabod Gwrthrych y Data am gyhyd ag sydd ei angen ar gyfer prosesu
 - 9.6. gael ei brosesu mewn dull sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol

10. Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau fel y bo angen i adlewyrchu'r arfer gorau o ran rheoli data, diogelwch, a rheolaeth ac i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau a wneir i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
11. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:
 - 11.1. Holl weithwyr y Gymdeithas, sy'n cynnwys rheolwyr, hyfforddeion, gwirfoddolwyr, myfyrwyr profiad gwaith, rhai ar leoliad a staff cymorth.
 - 11.2. Yr holl gontractwyr, cyflenwyr a phobl eraill sy'n gweithio ar ran y Gymdeithas
12. Mae'n berthnasol i'r holl ddata y mae'r practis yn ei ddal mewn perthynas ag unigolion adnabyddadwy. Mae hyn yn gallu cynnwys ond heb fod wedi'i gyfyngu i:
 - 12.1. Enwau unigolion, cyfeiriadau post, cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn, data ariannol, enwau busnesau, ynghyd ag unrhyw wybodaeth bersonol sensitif arall yn ymwneud ag unigolion.
 - 12.2. Mae gan bawb sy'n gweithio i'r Gymdeithas gyfrifoldeb i sicrhau bod data'n cael ei gasglu, ei storio a'i drin yn briodol.
13. Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau fel y bo angen i adlewyrchu arfer gorau o ran rheoli data, diogelwch, a rheolaeth ac i sicrhau cydymffurfiaeth â newidiadau neu ddiwygiadau a wneir i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
14. Bydd y Gymdeithas, trwy reoli priodol a chymhwyso'r meini prawf a'r rheolyddion yn llym yn:

- 14.1. Cadw at yr amodau yn llawn ynglŷn â chasglu a defnyddio gwybodaeth yn deg
- 14.2. Cwrdd â'i rhwymedigaethau cyfreithiol i nodi'n fanwl y dibenion y caiff gwybodaeth ei defnyddio ar eu cyfer
- 14.3. Casglu a phrosesu gwybodaeth briodol, a dim ond i'r graddau y mae'i hangen i gyflawni'i hanghenion gweithredol neu i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol
- 14.4. Sicrhau ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir
- 14.5. Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw a'i dileu'n briodol
- 14.6. Sicrhau y gall hawliau pobl y cedwir gwybodaeth amdanynt gael eu harfer yn llawn dan y GDPR. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - 14.6.1. Yr hawl i gael gwybod
 - 14.6.2. Yr hawl i gael gweld
 - 14.6.3. Yr hawl i gywiro
 - 14.6.4. Yr hawl i ddileu
 - 14.6.5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
 - 14.6.6. Yr hawl i gludadwyedd data
 - 14.6.7. Yr hawl i wrthwynebu
 - 14.6.8. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

- 14.7. Cymryd mesurau diogelwch technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu gwybodaeth bersonol
- 14.8. Sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei throsglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) heb drefniadau diogelu addas
- 14.9. Trin pobl yn gyfiawn ac yn deg beth bynnag fo'u hoed, crefydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu ethnigrwydd wrth ymdrin â cheisiadau am wybodaeth
- 14.10. Nodi gweithdrefnau clir ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth
15. Bydd gwybodaeth a chofnodion yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu storio'n ddiogel a byddant ond ar gael i staff a phroseswyr data awdurdodedig.
16. Bydd gwybodaeth ond yn cael ei storio am gyhyd ag y mae'i hangen neu y mae'n ofynnol trwy statud a byddir yn cael gwared arni'n briodol.
17. Bydd y RhD yn sicrhau bod pob data personol a data cwmni yn anadferadwy o unrhyw system gyfrifiadurol a ddefnyddid gan y Gymdeithas o'r blaen sydd wedi'i phasio ymlaen/gwerthu i drydydd parti.
18. Mae gan bob unigolyn/gwrthrych data yr hawl i gael gweld y wybodaeth y mae'r RhD yn ei dal amdanynt.
19. Os yw unigolyn yn cysylltu â'r Gymdeithas yn gofyn am wybodaeth a ddelir amdanynt yna byddir yn gwneud cais iddynt am ID ffotograffig ac os nad oes yr un o'r esgusodiadau'n codi, bydd y wybodaeth yn cael ei darparu o fewn mis i'r cais.
20. Yn ogystal, bydd y RhD yn sicrhau bod:

- 20.1. Pawb sy'n prosesu gwybodaeth bersonol yn deall eu bod yn gytundebol gyfrifol am ddilyn arferion diogelu data da
- 20.2. Pawb sy'n prosesu gwybodaeth bersonol wedi'i hyfforddi'n briodol i wneud hynny
- 20.3. Pawb sy'n prosesu gwybodaeth bersonol yn cael ei oruchwylio'n briodol
- 20.4. Unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwneud ymholiadau ynghylch trin gwybodaeth bersonol yn gwybod beth i'w wneud
- 20.5. Y byddir yn ymdrin yn brydlon ac yn gwrtais ag unrhyw ymholiadau ynglŷn â thrin gwybodaeth bersonol
- 20.6. Y byddir yn disgrifio'n glir sut y mae'n trin gwybodaeth bersonol
- 20.7. Y byddir yn adolygu ac yn archwilio'n rheolaidd y ffyrdd y mae'n dal, rheoli a defnyddio gwybodaeth bersonol
21. Caiff y RhD rannu data gydag asiantaethau eraill megis adrannau'r llywodraeth a phartion perthnasol eraill.
22. Bydd yr Unigolyn/gwrthrych y data yn cael gwybod yn y rhan fwyaf o amgylchiadau sut a gyda phwy y bydd eu gwybodaeth yn cael ei rhannu. Mae yna amgylchiadau ble mae'r gyfraith yn caniatáu i'r RhD ddatgelu data (yn cynnwys data sensitif) heb ganiatâd gwrthrych y data. Dyma'r rheini:
 - 22.1. Cyflawni dyletswydd gyfreithiol neu fel yr awdurdoddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol
 - 22.2. Diogelu buddiannau hanfodol unigolyn/gwrthrych y data neu rywun arall

- 22.3. Mae'r unigolyn/gwrthrych y data eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus
- 22.4. Cynnal unrhyw achos cyfreithiol, cael cyngor cyfreithiol neu amddiffyn unrhyw hawliau cyfreithiol
- 22.5. Monitro at ddibenion cyfle cyfartal - h.y. hil, anabledd neu grefydd
- 22.6. Darparu gwasanaeth cyfrinachol ble na ellir cael caniatâd yr unigolyn/gwrthrych y data neu ble mae'n rhesymol mynd ymlaen heb ganiatâd: e.e. ble byddem yn dymuno osgoi gorfodi unigolion/gwrthrychau data sydd dan bwysau neu sy'n wael i ddarparu llofnodion caniatâd.
23. Bydd y RhD yn sicrhau y bydd ef/hi a'r holl weithwyr wedi'u hyfforddi'n briodol mewn Diogelu Data ac yn arbennig ym mholisiau'r RhD bob blwyddyn.
24. Os bydd aelodau staff newydd yn dechrau gweithio byddant yn cael eu cyflenwi â hyfforddiant diogelu data cyn gynted ag sy'n ymarferol
25. Bydd y RhD yn cadw cofrestr o'r holl hyfforddiant a ddarperir ar gyfer staff.
26. Os digwydd tor-rheol, bydd manylion y tor-rheol yn cael eu cofnodi a bydd y RhD yn ystyried pa gamau y dylid eu cymryd.
27. Bydd cofnod o unrhyw broses o wneud penderfyniad yn cael ei gadw yn y cyswllt hwn, bydd Ymddiriedolwyr y Gymdeithas a Chyfarwyddwyr y Cwmpni yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw dor-rheol neu golled.
28. Bydd y Gymdeithas yn cadw cofnod o'r holl ddyfeisiau sy'n dal gwybodaeth sy'n destun y GDPR (rhestru rhifau IMEI; lleoliad; defnyddwyr).

29. Byddant yn cadw cofnodion hefyd o unrhyw dor-rheol gwirioneddol neu fethiant agos er mwyn diweddarau hyfforddiant ac addysg.
30. Bydd staff sy'n defnyddio dyfais symudol yn rhoi gwybod i'r RhD ar unwaith am golled neu ladrad unrhyw ddyfais o'r fath.
31. Bydd system CCTV yn cael ei gosod gyda chyfleuster recordio gyda chyfnod cadw o 28 diwrnod sy'n cydymffurfio â dogfen Cod Ymddygiad yr ICO